Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

## Adroddiad Blynyddol 2023-24

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn**

https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee

Mae’r adroddiad blynyddol hwn gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cynnwys cyfeiriadau at reolau a Chyfarwyddiadau Ymarfer a wnaed, gwaith is-bwyllgorau ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad; cylch gorchwyl, aelodaeth a nifer y cyfarfodydd Pwyllgor a gafwyd.

Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

# Cynnwys

Rhagair a Throsolwg 4
Cylch Gorchwyl 8
Cefndir a Strategaeth y Pwyllgor 8
Aelodaeth 9
Taliadau Cydnabyddiaeth a Buddiannau Aelodau 10
Cyfarfodydd 11
Is-bwyllgorau a Gweithgorau 11
Rheolau Newydd, Offerynnau Statudol a'r Cyfarwyddyd Ymarfer Diweddaraf 12
Ymgynghoriadau 14
Symleiddio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil 16
Busnes y Dyfodol 17
Manylion cyswllt 18
Atodiad Rhôl i nodi 25 mlynedd gyda chofnod o Gadeiryddion, Dirprwyon ac Ysgrifenyddiaethau'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil 19



## Rhagair a Throsolwg

Yn y byd sydd ohoni, mae newid yn rhan o fywyd. Yn achos cyfiawnder sifil, mae newidiadau'n aml yn gymhleth. O ystyried hyd a lled yr awdurdodaeth sifil, mae newidiadau'n aml yn cyffwrdd â llawer o wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd. Pan gyflwynwyd y Rheolau Trefniadaeth Sifil am y tro cyntaf, chwarter canrif yn ôl, roedd y dirwedd a'r diwylliant newid yn wahanol iawn.

Yn y lleoliad hwnnw, cyhoeddodd yr Arglwydd Woolf, Meistr y Rholiau ar y pryd (a'r Arglwydd Brif Ustus dilynol), adolygiad o'r system cyfiawnder sifil a gweledigaeth ar gyfer diwygio.

Roedd y newidiadau a ddilynodd yn arwyddocaol. Yn ganolog i hyn oedd deddfu Deddf Trefniadaeth Sifil 1997, a sefydlodd gyflwyniad set unedig o reolau llys i "lywodraethu'r arfer a'r weithdrefn i'w dilyn yn Adran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Llys Sirol" yng Nghymru a Lloegr: y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn rhagnodi y dylai'r rheolau gael eu gwneud gan Bwyllgor statudol newydd, "a elwir yn Bwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil".

Roedd y newidiadau hyn yn sylweddol ac yn arwain at rywfaint o drawsnewid ar draws y system gyfiawnder gyfan, oherwydd yn y blynyddoedd a ddilynodd, sefydlwyd pwyllgorau rheolau trefniadaeth pwrpasol, a oedd yn cynnwys deiliaid swyddi barnwrol, ymarferwyr ac arbenigwyr o'r tu allan i'r proffesiynau cyfreithiol, ac maent wedi bod ar waith yn awr ers blynyddoedd lawer.

Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil oedd y cyntaf ac mae eleni'n garreg filltir bwysig – dathlu ein pumed flwyddyn ar hugain.

Mae pŵer statudol y Pwyllgor Rheolau i wneud Rheolau Trefniadaeth Sifil "i'w arfer gyda golwg ar sicrhau bod y system cyfiawnder sifil yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon".

Dyma fu ein dyletswydd gyfreithiol gyffredinol, ac mae'n dal i fod felly. Defnyddir y Rheolau Trefniadaeth Sifil, bob dydd, ym mhob llys sifil, ar hyd a lled y wlad; maent yn rhan hanfodol o'r hyn sy'n sail i reolaeth y gyfraith ac maent yn creu fframwaith ar gyfer system cyfiawnder sifil deg, agored a chymesur ac felly, yn ei thro, ar gyfer cymdeithas gyfiawn.

Ers ei sefydlu, mae Cadeirydd statudol y Pwyllgor wedi bod yn Feistr y Rholiau. Yn y blynyddoedd cynnar, yr Arglwydd Woolf oedd yn cadeirio'r Pwyllgor.

Yn fwy diweddar, dirprwywyd y cyfrifoldebau o ddydd i ddydd i'r Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil. Ers 2021 mae hyn wedi bod yn fraint i mi ac yn unol â hynny, rwy'n falch iawn o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn anochel, nid un person yn unig sy'n gyfrifol am weithredu busnes y pwyllgor yn effeithiol, ac rwy'n ffodus iawn bod y Pwyllgor yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r system cyfiawnder sifil: cyd-farnwyr, ymarferwyr allanol a chynrychiolwyr y sectorau materion defnyddwyr a chyngor lleyg. Mae'n gasgliad o arbenigedd a thalent, unigolion a benodir yn gyhoeddus, y mae pob un ohonynt yn darparu eu hamser a'u hymdrechion gwerthfawr mewn swyddogaeth wirfoddol. Yn ogystal, mae llawer o bobl eraill yn cyfrannu at ein gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Yr edau aur sy'n cynnal y cymysgedd gofalus o drylwyredd a rhythm i fusnes y pwyllgor yw ein hysgrifenyddiaeth ragorol, dan arweiniad Carl Poole.

Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt. Yn wir, mae'r cyfrifoldeb o ddiweddaru'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn dasg barhaus ac rwy'n eithriadol o ddiolchgar i bawb a weithiodd ar hyn dros y 25 mlynedd diwethaf ac i'r rheini a fydd yn ymdrechu i wneud hynny yn y dyfodol.

Rwy'n gobeithio y bydd gennych chi ddiddordeb, fel ag yr oedd gen innau, mewn darllen atodlen cyn-gadeiryddion nodedig, Dirprwy Benaethiaid Cyfiawnder Sifil ac Ysgrifenyddion sydd wedi gwasanaethu'r Pwyllgor mor ddiwyd.

Eleni, talaf deyrnged i ddau aelod barnwrol y daeth eu tymhorau ar y Pwyllgor i ben. Yn gyntaf, Ei Anrhydedd y Barnwr Jarman CB, a gyrhaeddodd uchafswm ei gyfnod yn y swydd o chwe blynedd, wedi iddo ymuno yn 2018. Ef oedd yr aelod barnwrol cyntaf erioed o Gymru. Cyflwynwyd y penodiad yn unol â Gorchymyn Deddf Trefniadaeth Sifil 1997 (Diwygio) 2017. Mae ei ofal, ei arbenigedd a'i brofiad penodol o'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru wedi bod o werth arbennig i drafodaethau'r pwyllgor. Roedd ei uchafbwyntiau arbennig yn cynnwys ei waith ar y newidiadau i'r rheolau sy'n ymwneud â gwrandawiadau cyfraith gyhoeddus yng Nghymru a deddfwriaeth tai Cymru, yn ogystal â gwaith ehangach y Pwyllgor.

Yn ail, y Meistr David Cook, a fu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor fel yr aelod Meistr ers mis Mai 2018. Er ei fod bron yn cyrraedd ei uchafswm o chwe blynedd, ei benodiad fel Uwch Feistr a Chofiadur y Brenin a oedd yn golygu bod angen newid ei aelodaeth. Mae ei gyflawniadau nodedig yn cynnwys ei waith ar ddatblygu pyrth Hawliadau am Arian Sifil Ar-lein. Roedd hefyd yn aelod annatod o'r Is-bwyllgor Costau a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Ffurflenni; yn ogystal â phrosiectau ychwanegol eraill di-rif.

Yn ei dro, fe wnaethom groesawu aelodau newydd eleni. Mr Ustus Pepperall yw'r Barnwr Uchel Lys newydd, aelod o Adran Mainc y Brenin (gan olynu Mr Ustus Kerr, y rhoddais sylwadau ymadawol ar ei gyfer yn yr adroddiad blynyddol diwethaf), Ei Anrhydedd y Barnwr Hywel James, yr aelod barnwrol newydd o Gymru a'r Meistr Sullivan, yr aelod Meistr newydd o Adran Mainc y Brenin. Mae'r tri aelod newydd eisoes wedi dechrau creu argraff gyda chyfraniadau gwerthfawr.

Yr wyf hefyd yn cydnabod y cyfraniadau a wnaed gan Virginia Jones, a adawodd y Pwyllgor yn gynamserol oherwydd pwysau gwaith arall, ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd Virginia wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor am 18 mis prysur. Fel un o aelodau cyfreithiol y Pwyllgor, mae'r rôl yn gyfle pwysig i ymarferydd gyfrannu'n ddoeth at bob agwedd ar waith y Pwyllgor. Mae'r broses penodiadau cyhoeddus annibynnol, er mwyn dod o hyd i olynydd, yn mynd rhagddi.

Mae llawer o waith rhyfeddol o ddiddorol y Pwyllgor yn cael ei wneud drwy is-bwyllgorau. Eleni, cafodd Cadeiryddiaeth Is-bwyllgor Lacuna ei throsglwyddo i'r Barnwr Rhanbarth Clarke. Cyn hyn, fe'i cynhaliwyd gan y Meistr Dagnall. Syniad fy rhagflaenydd, yr Arglwydd Ustus Coulson, oedd Is-bwyllgor Lacuna, fel ffordd ganolog o adolygu'r gwahanol atgyfeiriadau a oedd yn ymwneud â gwallau neu fylchau posibl yn y rheolau o ganlyniad i ddatblygiadau mewn ymarfer. Mae llawer iawn o glod yn ddyledus i'r Meistr Dagnall am ei angerdd dros y dasg, a'i ymroddiad iddi.

Mae cyfnod adrodd 2023-24 wedi bod yn flwyddyn sy'n nodweddiadol o brysur, ac mae'r Pwyllgor wedi gwneud tri Offeryn Statudol sy'n diwygio rheolau, 10 Diweddariad Cyfarwyddyd Ymarfer, yn ogystal â dwy set o ddiwygiadau Protocol Cyn Gweithredu.

Gallwch ddarllen mwy am hyn ym mhrif gorff yr adroddiad. Dyma rai enghreifftiau: diwygiadau mewn perthynas â'r Awdurdod Monitro Annibynnol, y cyflwynwyd Cyfarwyddyd Ymarfer annibynnol newydd sbon ar ei gyfer; amrywiol ddiweddariadau gorfodi; diwygiadau cysylltiedig â chyfraith achosion a thechnegol gan gynnwys diwygiadau i ffurflenni llys ac, ymysg pethau eraill, i Gyfarwyddyd Ymarfer Achosion Deddf Cwmnïau; ceisiadau am dystiolaeth dramor; apeliadau; dirmyg llys; hawliadau cywiro pensiynau; adolygiad barnwrol a chyfres o welliannau i'r cynlluniau peilot gwasanaeth digidol, y cafodd eu cyfnodau gweithredu eu hymestyn hefyd.

Fodd bynnag, un agwedd sylweddol sydd wedi parhau ar gyflymder eleni oedd y rhaglen waith anodd ynghylch y diwygiadau Costau Sefydlog Adferadwy estynedig. Mae'r Is-bwyllgor Costau, dan gadeiryddiaeth gydwybodol Mr Ustus Trower, wedi gweithio'n ddiflino ar hyn. Mae cyfres helaeth o ddiwygiadau, ar draws y Rheolau Trefniadaeth Sifil, nid dim ond wedi'u cyfyngu i Ran 45 (Costau Sefydlog), wedi cael eu paratoi. Yn wir, mae gwaith sy'n ymwneud â'r Costau Sefydlog Adferadwy hefyd yn parhau ymhellach i 2024.

Felly hefyd y mae'r gwaith sy'n deillio o'r prosiect parhaus yn unol â'n dyletswydd statudol i "... geisio gwneud rheolau sy'n syml ac wedi'u mynegi'n syml". Eleni, mae 17 o Rannau Rheolau Trefniadaeth Sifil wedi cael eu diweddaru o dan y rhaglen hon. Mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer lleihau hyd cyffredinol, symleiddio'r iaith, gwella eglurder a bod yn niwtral o ran y rhywiau. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarfod agored blynyddol ym mis Mai bob blwyddyn yn ehangu'r rhyngweithio rhwng y Pwyllgor a defnyddwyr rheng flaen. Mae'r fforwm cwestiynau cyhoeddus yn arbennig o werthfawr. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch eto i'r nifer fawr o bobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder sifil, ac sydd â diddordeb ynddi, am yr amser maent wedi'i neilltuo i gymryd rhan mor gadarnhaol ar yr achlysur hwnnw.

Yn y cyfarfod hwnnw, soniodd Meistr y Rholiau am ddiwygiadau yn y dyfodol, yn enwedig y cyfleoedd sy'n codi yng ngoleuni gweledigaeth newydd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn cael ei gadeirio gan Feistr y Rholiau) a chyflwyno, ymhen amser, System Cyfiawnder Digidol, aml-awdurdodaeth. Bydd angen cyswllt rhwng y pwyllgorau rheolau awdurdodaethol a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein ac mae'n cynnig rhagolygon cyffrous. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein ac rwy'n awyddus iawn i ddilyn datblygiadau.

Rwy'n gwbl hyderus y bydd yr holl aelodau a swyddogion sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn parhau i gymryd rhan gyda'r un egni cadarnhaol ag o'r blaen. Byddwn i gyd yn gweithio gyda'n gilydd, yn driw i'n pwrpas a chan ganolbwyntio o'r newydd ar y 25 mlynedd nesaf.

Gobeithio y bydd darllen yr adroddiad hwn o fudd i chi. Diolch i chi am eich amser a'ch diddordeb.

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Birss**

**Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil**



Meistr y Rholiau (canol, blaen) gyda chyd-aelodau ac ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

## Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn gorff cyhoeddus cynghorol anadrannol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ei swyddogaeth yw llunio rheolau'r llys sy'n llywodraethu'r ymarfer a threfniadaeth o ran y canlynol:

- Adran Sifil y Llys Apêl;
- yr Uchel Lys; a'r
- Llys Sirol.

Dylid defnyddio ei bŵer i wneud rheolau gyda'r bwriad o sicrhau bod y system cyfiawnder sifil yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon, a bod y rheolau'n syml ac wedi'u mynegi'n syml. Deillia'r cylch gorchwyl o Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llysoedd 2003, Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Deddf Trosedd a Llysoedd 2013, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a Deddf Trosedd a'r Heddlu 2014).

## Cefndir a Strategaeth y Pwyllgor

Sefydlwyd Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ym 1997 i wneud rheolau llys (Rheolau Trefniadaeth Sifil) i ddisodli Rheolau blaenorol y Goruchaf Lys a Rheolau'r Llys Sirol.

Nod y pwyllgor yw darparu rheolau llys yn unol â'r nodau a nodwyd yn adroddiad "Access to Justice" yr Arglwydd Woolf ym 1996.

Cyn gwneud unrhyw reolau, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

- ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae o'r farn eu bod yn briodol a
- chyfarfod (oni bai nad yw'n hwylus i wneud hynny).

Mae rheolau'n cael eu gwneud yn ddeddfwriaeth drwy Offeryn Statudol. Nod y pwyllgor yw llofnodi Offerynnau Statudol ym mis Mehefin a mis Rhagfyr bob blwyddyn, a fydd yn dod i rym ym mis Hydref ac ym mis Ebrill yn y drefn honno. Ategir y Rheolau Trefniadaeth Sifil gan Gyfarwyddiadau Ymarfer, ac er nad yw'r rhain yn gyfrifoldeb uniongyrchol i'r pwyllgor, mae'r pwyllgor yn ymwneud â'u drafftio oherwydd eu perthynas agos â'r rheolau.

Fodd bynnag, gellir diweddaru Offerynnau Statudol a Chyfarwyddyd Ymarfer (yn ogystal â Phrotocolau Cyn Gweithredu), drwy gydol y flwyddyn.

Nod strategaeth y pwyllgor yw cyflawni ei swyddogaeth statudol a'r Prif Amcan yw y dylai'r rheolau fod yn 'syml, a chael eu mynegi'n syml'.

Mae'r pwyllgor, a'r tîm o swyddogion a chyfreithwyr sy'n cefnogi'r pwyllgor, yn adnodd cyfyngedig, a dan bwysau'n aml.  Felly, mae angen gallu blaenoriaethu'r gwaith y gofynnir i'r pwyllgor ei wneud.

Mae'r blaenoriaethau canlynol ar waith.

- **Deddfwriaeth (lle bo angen)**
  Mae diwygiadau i'r rheolau sy'n cael eu gyrru gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth arall yn aml yn ofynnol ar amserlen sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y pwyllgor neu reolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, dylai'r eitemau hyn gael blaenoriaeth lle bynnag y bo angen; ond weithiau ni fydd deddfwriaeth sy'n effeithio ar gyfiawnder sifil yn golygu bod angen diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.

- **Moderneiddio**
  Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at ymgorffori'r rheolau cofrestredig ym mhrif gorff y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Pan gafodd y Rheolau Trefniadaeth Sifil eu creu ym 1998, nid oedd holl Reolau'r Goruchaf Lys a Rheolau'r Llys Sirol wedi'u troi'n Rheolau Trefniadaeth Sifil. Rhoddwyd gweddill Rheolau'r Goruchaf Lys a Rheolau Llysoedd Sirol mewn 'atodlenni' i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil i'w hymgorffori'n ddiweddarach, os oedd angen, ac felly fe'u galwyd yn Rheolau'r Atodlen. Mae ymgorffori'r rheolau hyn sy'n weddill yn parhau i ffurfio nodwedd reolaidd o waith y pwyllgor lle bynnag y bo'n bosibl. Yn 2021, sefydlwyd prosiect "symleiddio" newydd (dan nawdd Is-bwyllgor Adran 2(7)) gyda'r nod o ategu a chyflymu'r gwaith o gyflawni'r flaenoriaeth hon.

- **Adolygiadau Cynhwysfawr**
  Bydd y rhain yn cael eu harwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond cytunir ar y testunau gyda'r pwyllgor ac yn ddelfrydol byddant yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder i'r farnwriaeth, ymarferwyr ac ymgyfreithwyr. Byddant yn canolbwyntio ar Ran neu bwnc penodol o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, a byddant yn cynnwys adolygiad llawn o ddrafftio'r Rhan honno, gan geisio symleiddio'r iaith a'r drefn, a dileu dyblygu (rhwng y rheol a'r cyfarwyddyd ymarfer, er enghraifft).

Bydd naill ai angen i awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'w hystyried y tu allan i'r tri maes blaenoriaeth hyn gael eu dal yn ôl i'w cynnwys mewn adolygiad priodol, neu fynd drwy brawf cymharol drylwyr i'w ystyried ar sail brys, graddfa (bosib) yr anghyfiawnder, rheidrwydd gwleidyddol a graddfa'r anawsterau ymarferol.

## Aelodaeth

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd y pwyllgor yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Pennaeth Cyfiawnder Sifil, Meistr y Rholiau, Syr Geoffrey Vos, Ex Officio
- Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil, Arglwydd Ustus Birss, Ex Officio
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Kerr, Aelod sy'n Farnwr yr Uchel Lys (tan Awst 2023)
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Pepperall, Aelod sy'n Farnwr yr Uchel Lys (o fis Mawrth 2024 ymlaen)
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Trower, Aelod sy'n Farnwr yr Uchel Lys (Adran Siawnsri)

- Uwch Feistr Cook, Aelod Meistr yr Uchel Lys (tan fis Mawrth 2024)
- Meistr Sullivan, Aelod Meistr yr Uchel Lys (o fis Chwefror 2024 ymlaen)
- Ei Anrhydedd y Barnwr Bird, Aelod sy'n Farnwr Cylchdaith
- Ei Anrhydedd y Barnwr Jarman CB, Aelod sy'n Farnwr Cymreig (tan fis Mawrth 2024)
- Ei Anrhydedd y Barnwr Hywel James, Aelod sy'n Farnwr Cymreig (o fis Mawrth 2024 ymlaen)
- Barnwr Rhanbarth Clarke, Aelod sy'n Farnwr Rhanbarth
- Barnwr Rhanbarth Johnson, Aelod sy'n Farnwr Rhanbarth (o fis Gorffennaf 2023 ymlaen)
- Dr Anja Lansbergen-Mills, Aelod sy'n Fargyfreithiwr
- Ms Isabel Hitching CB, Aelod sy'n Fargyfreithiwr
- Mr Tom Montagu-Smith CB, Aelod sy'n Fargyfreithiwr
- Mr David Marshall, Aelod sy'n Gyfreithiwr
- Mr Ben Roe, Aelod sy'n Gyfreithiwr
- Ms Virginia Jones, Aelod sy'n Gyfreithiwr (tan fis Rhagfyr 2023)
- Mr Ian Curtis-Nye, Aelod sy'n rhoi Cyngor Lleyg/Materion Defnyddwyr
- Ms Elisabetta Sciallis, Aelod sy'n rhoi Cyngor Lleyg/Materion Defnyddwyr (o fis Mehefin 2023 ymlaen)

## Taliadau Cydnabyddiaeth a Buddiannau Aelodau

Nid yw'r Cadeirydd a'r aelodau yn cael eu talu am eu gwasanaeth ar y pwyllgor.

Caniateir i aelodau'r pwyllgor gyflwyno hawliadau rhesymol am dreuliau teithio a chynhaliaeth, a weinyddir gan yr Ysgrifenyddiaeth ac a delir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder; ni chyflwynwyd unrhyw hawliadau i'r Ysgrifenyddiaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, pan gynhelir cyfarfodydd pwyllgor wyneb yn wyneb, mae'r Weinyddiaeth yn darparu lluniaeth i aelodau yn lle hawliadau cynhaliaeth.

Am y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, roedd hyn yn £823.96

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn; os hoffech ei gweld, cysylltwch â'r ysgrifennydd drwy'r dulliau a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Cyfarfodydd

Cyfarfu'r pwyllgor naw gwaith yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Roedd cyfarfod y pwyllgor ar 31 Mawrth 2023 yn lle cyfarfod ym mis Ebrill, oherwydd gwyliau'r Pasg. Ni chynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Awst 2023, mis Medi 2023 na mis Ionawr 2024, fel sy'n arferol. Roedd y cyfarfodydd pwyllgor ym mis Mai 2023 (y cyfarfod agored blynyddol) a mis Hydref 2023 o bell, drwy gyfleuster cynhadledd fideo.

## Is-bwyllgorau a Gweithgorau

Mae'r pwyllgor yn sefydlu is-bwyllgorau a gweithgorau i ystyried manylion y rheolau sy'n ymwneud â phrosiectau a/neu gynigion penodol ac mae llawer o'r gwaith cychwynnol yn cael ei wneud fel hyn. Yn gyffredinol, mae oddeutu 15 o bwyllgorau o'r fath yn gweithredu ar unrhyw un adeg. Maent yn cynnwys (wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor):

- **Adolygiadau Barnwrol (Rhan 54)** – gwaith gweddilliol sy'n deillio o'r argymhellion mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Gyfraith Weinyddol a newidiadau technegol eraill mewn ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer.

- **Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr** – ystyried y diwygiadau Rheolau Trefniadaeth Sifil drafft a ragwelir o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth (gan gymryd y daw'n Ddeddf).

- **Costau** – ystyried materion sy'n gysylltiedig â chostau.

- **Costau Sefydlog Adferadwy Esgeulustod Meddygol** – drafftio diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil o ganlyniad i bolisi'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pwnc hwn.

- **Cynllun Peilot Cyfryngu** – yn amodol ar bolisi'r llywodraeth, drafftio'r newidiadau Rheolau Trefniadaeth Sifil sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer cyfryngu integredig mewn achosion hawliadau bach yn y llys sirol.

- **Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod** – drafftio diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil sy'n deillio o ddyfarniad y Llys Apêl yn James Churchill v Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful.

- **Ffurflenni Llys** – ystyried newidiadau i ffurflenni llys, neu rai newydd.

- **Gorchmynion Atal Sifil** – ystyried pwyntiau a godwyd gan Ganghellor yr Uchel Lys ynghylch gweithredu Gorchmynion Atal Sifil.

- **Gorfodaeth Tai a Meddiannu** – cadw golwg gyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â Thai a Meddiant. Mae gwaith parhaus penodol yn cynnwys diwygiadau deddfwriaethol ac adolygiad o weithdrefnau gorfodi amrywiol, gan gynnwys gorchmynion troi allan N54.

- **Gwasanaeth (Rhan 6) –** ystyried materion sy'n ymwneud â gwasanaeth, y tu mewn a'r tu allan i awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

- **Hawliadau Ariannol ac Iawndal (diwygiadau ar-lein)** - creu rheolau i gefnogi'r gwasanaethau diwygiedig ar-lein (yn bennaf y porth Hawliadau am Arian Sifil Ar-lein Cyfarwyddyd Ymarferol 51R, a phorth Hawliadau am Iawndal Cyfarwyddyd Ymarferol 51ZB).

- **Lacuna** - ystyried bylchau posibl yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil fel y'u hysbysir gan y farnwriaeth / dyfarniadau ac adolygu ceisiadau a dderbynnir gan unrhyw un sydd â diddordeb, gan gynnwys ymholiadau cyffredinol a dderbynnir drwy'r ysgrifenyddiaeth, i benderfynu a yw'n addas ac yn deilwng o gael ei ystyried yn llawn gan y pwyllgor.

- **Mynediad at ddogfennau llys a thribiwnlys gan rai nad ydynt yn bartïon** - i ystyried atgyfeiriad Is-bwyllgor Lacuna ynghylch mynediad at ddogfennau llys gan rai nad ydynt yn bartïon (wedi'i ysgogi gan ddyfarniad y Goruchaf Lys yn Cape Intermediate Holdings Ltd v Dring (dros ac ar ran Asbestos Victims Support Groups Forum UK) (2019) UKSC 38

- **Symleiddio (Adran 2(7))** – adolygu'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, dros raglen raddol er mwyn lleihau a symleiddio'r rheolau, yn unol â dyletswydd statudol y pwyllgor dan a.2(7) Deddf Trefniadaeth Sifil 1997 i, '... geisio gwneud rheolau sy'n syml ac wedi'u mynegi'n syml.'

- **Ymgyfreitha Strategol yn Erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd** – yn amodol ar bolisi'r llywodraeth, drafftio diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil o ganlyniad i Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2024.

## Rheolau Newydd, Offerynnau Statudol a'r Cyfarwyddyd Ymarfer Diweddaraf

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur arall. Mae tri Offeryn Statudol, 10 Diweddariad Cyfarwyddyd Ymarfer (156 i 165), yn ogystal â dwy set o ddiwygiadau Protocol Cyn Gweithredu wedi cael eu gwneud.

Mae'r amrywiol offerynnau diweddaru yn gwneud cyfres o newidiadau ar draws y Rheolau Trefniadaeth Sifil a gellir eu darllen ar-lein yn Civil - Civil Procedure Rules (justice.gov.uk). Roedd y diwygiadau'n cynnwys y canlynol:

Rhoddwyd sylw hefyd i'r Cyfarwyddyd Ymarfer newydd (heb rif) a gyflwynwyd i gefnogi'r Awdurdod Monitro Annibynnol gyflawni ei ddyletswydd statudol mewn perthynas â hawliadau sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion ETFA yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; cafodd amrywiol ddarpariaethau gorfodi yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 84 a ffurflen EAC1 eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau gweithredol a sefydlu'r Ganolfan Busnes Cenedlaethol Sifil; gwnaed casgliad o ddiwygiadau technegol pwysig eraill hefyd, fel Cyfarwyddyd Ymarfer 49A Achosion Deddf Cwmnïau, i ganiatáu i'r achosion gael eu cyflwyno drwy ffurflen hawlio Rhan 7 neu Ran 8; y

darpariaethau'n ymwneud â cheisiadau tystiolaeth dramor (Rhan 34) ac i apeliadau (Rhan 52) ynghylch, ymhlith eraill, achosion dirmyg llys ac mewn ymateb i ddatblygiadau cyfraith achos; bwlch yn Rhan 52 ynghylch terfyn amser apelio i'r Llys Apêl o'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Roedd y penderfyniad yn Taray Brokering yn [2022]EWHC 2968 (Ch) yn golygu bod angen adolygu a diwygio Rheol Trefniadaeth Sifil 81.4(e) i'w gwneud yn glir nad yw'r Rhybudd o Gosb mewn achos dirmyg llys yn rhan o'r gorchymyn – mae'n hysbysiad rhybuddio a ychwanegwyd at y gorchymyn yn ôl yr angen; roedd profiad ymarferol yn arwain at hawliadau pensiwn yn cael eu hychwanegu at y rhestr o eithriadau o ofynion Cyfarwyddyd Ymarfer 57AC, y cyfarwyddyd ymarfer ar ddatganiadau tystion yn y Llysoedd Busnes ac Eiddo.

Arweiniodd newidiadau yn ymwneud â threfniadaeth adolygiad barnwrol at ddiwygiadau i Reol Trefniadaeth Sifil 54.8A a oedd yn ceisio darparu sicrwydd a chyfyngu ar oedi, drwy roi hawl benodol i hawlwyr ffeilio Ymateb i'r cydnabyddiad cyflwyno mewn achosion adolygiad barnwrol a gwneud hynny o fewn saith niwrnod i dderbyn y cydnabyddiad. Ar wahân, gwnaed diwygiad i Reol Trefniadaeth Sifil 54.5 (terfyn amser ar gyfer ffeilio hawliad) o ganlyniad i Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023, a gyflwynodd gyfnod cyfyngu o fis ar gyfer herio penderfyniad neu ddyfarniad a wnaed o dan y Rheoliadau. Roedd y diwygiad yn cyd-fynd â'r terfynau amser yn y trefniadau cymhorthdal a chaffael prif ffrwd ac yn rhoi eglurder yn y rheolau, o gofio mai amserlen hawliadau adolygiad barnwrol cyffredinol yw tri mis.

Gwnaed cyfres sylweddol o ddiwygiadau Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Clefydau a Salwch, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer hawliadau colli clyw a ysgogwyd gan sŵn.

Diwygiwyd tair ffurflen llys a ragnodwyd (N19 (Gorchymyn Atal Sifil cyfyngedig)), N19A (Gorchymyn Atal Sifil estynedig) ac N19B (Gorchymyn Atal Sifil cyffredinol), sydd wedi'u hatodi i Gyfarwyddyd Ymarfer 3C y Gorchymyn Atal Sifil, er mwyn galluogi bod manylion unrhyw orchmynion blaenorol sy'n cofnodi bod yr hawliadau a/neu'r ceisiadau yn gwbl ddi-rym, yn cael eu nodi yng nghorff y ffurflenni.

Mae Gwasanaethau Digidol hefyd yn parhau i ddatblygu, ac mae'r cynllun peilot Hawliadau am Arian Sifil Ar-lein (Cyfarwyddyd Ymarfer 51R) a'r cynllun peilot ar gyfer y Porth am Hawliadau Iawndal (Cyfarwyddyd Ymarfer 51B) wedi cael eu haddasu'n raddol a'u hymestyn i ganiatáu rhagor o brofion. Diwygiwyd y Cynllun Peilot E-weithio (Cyfarwyddyd Ymarfer 51O) hefyd i ddod â'r Llys Gweinyddol o fewn ei gwmpas. Yn y flwyddyn ganlynol, bydd y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn destun adolygiad cynhwysfawr gyda'r nod o beidio â'i gael yn gynllun peilot mwyach, ac ymgorffori rhywbeth yn ei le yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil maes o law.

Gwnaed diwygiadau hefyd i'r diwygiadau estynedig i'r Costau Sefydlog Adferadwy. Nid oedd y gyfres gysylltiedig o ddiwygiadau, ar draws y Rheolau Trefniadaeth Sifil, nid dim ond wedi'u cyfyngu i Ran 45 (Costau Sefydlog). Mae'r manylion ar gael ar-lein drwy ddilyn y dolenni isod.

Er mwyn symleiddio, penderfynodd y pwyllgor hefyd gynhyrchu rhestr ganolog o bob cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gynnwys mewn gwahanol rannau o'r rheolau. Ychwanegwyd darpariaeth "fflagio" gysylltiedig at Gyfarwyddyd Ymarfer 5B (cyfathrebu a ffeilio dogfennau dros e-bost). Gobeithir y bydd hyn yn helpu defnyddwyr yn ogystal â gwella prydlondeb adlewyrchu unrhyw newidiadau i gyfeiriadau e-bost newydd neu bresennol, oherwydd gellir diweddaru'r rhestr ganolog heb fod

angen offeryn diwygio ffurfiol. Mae’r rhestr ar gael ar dudalen we’r rheolau: N900 CPR E-mail address list (justice.gov.uk)

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefannau’r Rheolau Trefniadaeth Sifil a gwefannau deddfwriaeth drwy glicio ar y dolenni canlynol: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil https://www.legislation.gov.uk/.

## Ymgynghoriadau

Mae gan y pwyllgor y pŵer i gynnal ymgynghoriadau pan ofynnir am dystiolaeth/ barn wrth iddynt ystyried rheolau’r llys sy’n llywodraethu’r ymarfer a’r drefniadaeth mewn achosion sifil.

Mae’r pwyllgor yn ymgynghori, fel y mae’n barnu sy’n briodol i’r rheolau neu ddiwygiadau i’r rheolau dan sylw, mewn nifer o ffyrdd sydd â gwahanol raddau o ffurfioldeb. Gall hyn gynnwys gohebiaeth benodol gyda chyrff yr ystyrir ei bod yn briodol ymgynghori â nhw; cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau sydd â diddordeb yng ngwaith is-bwyllgorau sy’n adolygu agweddau penodol ar y rheolau; gwahodd ac adolygu awgrymiadau a sylwadau gan ei aelodau o blith y grwpiau y maent yn rhan ohonynt; a gwahodd ac adolygu awgrymiadau gan Adrannau perthnasol y Llywodraeth ac awdurdodau eraill y mae rheolau trefniadaeth sifil yn effeithio arnynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd yr ymgynghoriadau cyhoeddus canlynol:

- **Gorfodi Dyfarniadau mewn Awdurdodaethau Gwahanol** (Hag 19 a Hag 05): diwygiadau arfaethedig i Reol Trefniadaeth Sifil Rhan 74 a Chyfarwyddyd Ymarfer 74A. Roedd y diwygiadau arfaethedig yn deillio o ystyriaeth y pwyllgor o’r fframwaith gweithredu i hwyluso gweithredu Confensiwn yr Hag 2019 (o ran Cydnabod a Gorfodi Dyfarniadau Tramor mewn Materion Sifil neu Fasnachol) a Chonfensiwn yr Hag 2005 (o ran Dewis Cytundebau Llys). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Chwefror 2024 ac 13 Mawrth 2024 ac roedd yn sail i’r Diweddariad ar y Rheolau Trefniadaeth Sifil (Rheolau Trefniadaeth Sifil (Diwygiad Rhif 2) 2024 a’r Diweddariad Cyfarwyddyd Ymarfer cysylltiedig), er na wnaed hynny yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

- **Costau Sefydlog Adferadwy** ar faterion yn ymwneud â’r drefn newydd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Gorffennaf 2023 ac 8 Medi 2023. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth ym mis Chwefror 2024 ac roedd yn nodi’r ffordd ymlaen ar y materion sy’n destun ymgynghoriad, yn ogystal ag amrywiol faterion ehangach sy’n ymwneud â’r Costau Sefydlog Adferadwy a godwyd gan randdeiliaid. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad fel rhan o’r broses o gwblhau Rheolau Trefniadaeth Sifil (Diwygiad Rhif 2) 2023 a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023. **Nodyn Esboniadol:** Roedd adroddiad blynyddol 2022-23 yn darparu gwybodaeth am ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Costau Sefydlog Adferadwy. Er bod yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 wedi cyfrannu at y gwaith ar Gostau Sefydlog Adferadwy, roedd eu prif ffocws ar Symud Costau Un Ffordd Cymwys a Bregusrwydd yng nghyd-destun sut gellid delio â nhw, o dan drefn costau sefydlog adferadwy ar gyfer hawliadau Trac Cyflym a Thrac Canolraddol. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriadau ar 9 Mai 2022 a daeth i ben ar 20 Mehefin 2022. Gellir darllen ymatebion y Llywodraeth i’r ymgynghoriadau hyn yma: cprc-qocs-consultation-response.pdf

(publishing.service.gov.uk); cprc-consultation-vulnerability-response.pdf (publishing.service.gov.uk).

- **Hawliadau Datgeliad Safonol yn y Gweithle**. Gofynnwyd am farn ar faterion yn codi o ystyriaeth y pwyllgor o Atodiad C (hawliadau datgeliad safonol yn y gweithle) i'r Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Anaf Personol.  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 23 Mehefin 2023 a 4 Awst 2023.  Bydd yr is-bwyllgor yn adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor maes o law.

- **Mynediad at Ddogfennau Llys gan Rai nad ydynt yn Bartïon**: Rheol Trefniadaeth Sifil newydd arfaethedig 5.4C. Roedd hyn yn ymwneud â diwygiadau drafft arfaethedig i Reol Trefniadaeth Sifil 5.4C (cyflenwi dogfennau i rai nad ydynt yn bartïon o gofnodion llys) a ddeilliodd o ddyfarniad Goruchaf Lys y DU yn Cape Intermediate Holdings Ltd -v- Dring (2019) UKSC 38.  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 19 Chwefror 2024 ac 8 Ebrill 2024 (ac felly mae'n disgyn y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn).  Mae gwaith yn mynd rhagddo.

Yn ogystal, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori cyhoeddus eraill fel rhan o'r prosiect i symleiddio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, fel yr esbonnir isod.

## Symleiddio’r Rheolau Trefniadaeth Sifil

Mae diwygiadau arfaethedig sy’n deillio o’r prosiect symleiddio yn canolbwyntio ar ddrafftio diwygiadau yn hytrach na newidiadau sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai diwygiadau arfaethedig yn ceisio adleoli neu hepgor darpariaethau’n gyfan gwbl.

Mae’r pwyllgor wedi parhau â’i brosiect i geisio symleiddio’r rheolau; mae hon yn ddyletswydd statudol dan a.2(7) Deddf Trefniadaeth Sifil 1997. Mae’r gwaith yn cael ei wneud gan is-bwyllgor sy’n mynd i’r afael â’i dasg fesul cam. Dechreuodd y prosiect yn 2021 ac mae bron â chwblhau cam un, sef adolygiad o Rannau 1 i 30 (rhannau generig y rheolau yn fras).

Mae rhaglen dreigl o ymgynghori yn cefnogi’r gwaith. Mae’n golygu bod modd cyhoeddi cynigion wedi’u drafftio, ar-lein, er mwyn cael sylwadau arnynt cyn cyflwyno newidiadau.

Ers ei sefydlu a hyd at fis Awst 2023, cafodd ei gadeirio gan un o'r aelodau sy’n Farnwr yn yr Uchel Lys, Mr Ustus Kerr. Ar ôl iddo ymddeol o’r pwyllgor, mae’r prosiect wedi cael ei oruchwylio gan un o’r aelodau sy’n Fargyfreithiwr, Isabel Hitching CB, ac mae’n parhau i symud ymlaen yn dda.

Am y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, mae 17 o Rannau Rheolau Trefniadaeth Sifil wedi cael eu hadolygu a’u diwygio: Rhannau 3 (Pwerau Rheoli Achosion y Llys), 12 (Dyfarniad Trwy Ddiffyg), 14 (Derbyniadau), 18 (Gwybodaeth Bellach), 19 (Ymgyfreitha Partïon a Grŵp), 20 (Gwrth-hawliadau a Hawliadau Ychwanegol Eraill), 22 (Datganiadau Gwirionedd), 23 (Rheolau Cyffredinol ynghylch Ceisiadau am Orchmynion Llys, 24 (Dyfarniad Diannod), 26 (Rheoli Achosion - Cam Rhagarweiniol), 39 (Darpariaethau Amrywiol yn ymwneud â Gwrandawiadau), 40 (Dyfarniadau, Gorchmynion, Gwerthu Tir ac ati), 45 (Costau Sefydlog), 55 (Hawliadau Meddiant), 56 (Hawliadau Landlord a Thenant a Darpariaethau Amrywiol ynghylch Tir a Hawliadau o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016), 58 (Llys Masnach) a 59 (Llys Masnach Cylchdaith).

Mae’r diwygiadau a'r newidiadau o ganlyniad yn darparu ar gyfer lleihau hyd cyffredinol, symleiddio’r iaith, gwella eglurder a bod yn niwtral o ran y rhywiau.

Mae rhai darpariaethau hefyd yn cael eu hadleoli i fod mewn lleoliad sy’n fwy rhesymegol a phriodol. Mae rheol 22.1 (dogfennau i’w gwirio gan ddatganiad gwirionedd) wedi’i hail-lunio, er enghraifft, mae rheol 22.1(b) yn cael ei dileu am ei bod yn ddiangen, ac mae’r darpariaethau ynghylch pwy sy’n gallu llofnodi datganiad gwirionedd a’r hyn y dylai’r datganiad gwirionedd hwnnw ei gynnwys, wedi’u gwahanu’n fwy clir. Gwnaed dau newid esboniadol hefyd i’r canlynol: rheol 3.3 (Pŵer y Llys i wneud gorchymyn ar ei liwt ei hun) a rheol 39.1 (diffiniad o wrandawiad) a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r newid tebyg yn rheol 23.1. Nid yw’n newid y gyfraith na’r arfer ond yn welliant technegol yn unig.

Prif Ran y Rheolau Trefniadaeth Sifil sy’n weddill i’w datrys yw Rhan 25 (Rhwymedïau a Diogelwch Dros Dro ar gyfer Costau); cynhaliwyd yr ymgynghoriad cysylltiedig rhwng 18 Rhagfyr 2023 a 9 Chwefror 2024 (mae hefyd yn cynnwys diwygiad arfaethedig i Ran 4 Rheolau Trefniadaeth Sifil (Ffurflenni) er mwyn gallu cyfeirio’n benodol at Orchmynion Enghreifftiol). Parheir i ymdrin â’r ymatebion. Y nod yw setlo ar y drafftio mewn pryd i’w ymgorffori yn y Diweddariad ar Reolau Trefniadaeth Sifil yn ystod y gaeaf (er mwyn bod mewn grym Ebrill 2025).

Wrth i'r cam hwn o'r prosiect symleiddio ddod i ben, mae'n cyd-daro â datblygiadau wrth sefydlu'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein ac mae hynny'n gyfle i bwyso a mesur cyn diffinio camau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r egwyddor gyffredinol o symleiddio yn dal yn rhan weithredol o brif waith y pwyllgor.

Bydd unrhyw gynigion pellach yn parhau i gael eu cyhoeddi, ar gyfer ymgynghori, fel y bo'n briodol, ar-lein yma: https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee/about

Diolch i bawb sydd wedi cyflwyno ymatebion hyd yma. Gellir monitro datblygiadau drwy ddilyn y cynnydd drwy'r cofnodion, sydd ar-lein yma: https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee/about a Diweddariadau Rheolau Trefniadaeth Sifil dilynol.

## Busnes y Dyfodol

Mae rhaglen waith y pwyllgor a'r diwygiadau canlyniadol i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu gyrru gan lawer o flaenoriaethau sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd. Nid yw bob amser yn bosibl nodi, ymhell ymlaen llaw, y pynciau craidd i'w hystyried. Mae deddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth arall yn aml yn ofynnol ar amserlen sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y pwyllgor neu reolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd pynciau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder i'r farnwriaeth, ymarferwyr, ymgyfreithwyr a defnyddwyr eraill yn cael sylw drwy gydol y broses. Mae materion fel brys, maint anghyfiawnder (posibl), rheidrwydd gwleidyddol a maint yr anawsterau sy'n codi'n ymarferol, i gyd yn rhan o'r broses i reoli'r rhaglen waith yn y ffordd orau bosibl.

Lle bynnag y bo modd, bydd diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn dilyn y ddau ddyddiad cyd-gychwyn ym mis Hydref ac Ebrill. Fodd bynnag, o ystyried pwysau a brys rhai darnau o waith, mae diweddariadau ychwanegol i'w disgwyl.

O'r herwydd, mae rhaglen yr agenda'n cael ei hadolygu'n gyson ac mae'n bosibl y bydd yn newid. Fodd bynnag, disgwylir i'r pynciau sy'n debygol o yrru'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod gynnwys cymysgedd o brosiectau sydd eisoes wedi dechrau, ochr yn ochr â meysydd gwaith newydd; gyda'i gilydd maent yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):

- Mynediad at Ddogfennau Llys gan Rai nad ydynt yn Bartïon: Rheol Trefniadaeth Sifil newydd arfaethedig 5.4C (mewn ymateb i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn Cape Intermediate Holdings Ltd v Dring (2019) UKSC 38)
- Diwygiadau sy'n deillio o'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr
- Gweithgarwch busnes fel arfer yn codi o atgyfeiriadau i'r Is-bwyllgor Lacuna a'r Is-bwyllgor Ffurflenni
- Adroddiad Costau a Materion Costau'r Cyngor Cyfiawnder Sifil yn gyffredinol
- Gorchmynion Atal Sifil
- Ymestyn Costau Sefydlog Adferadwy a Chostau Sefydlog Adferadwy Esgeulustod Clinigol

- Cynigion terfynol yr ymgynghoriad (gweler uchod) ar ddiweddaru'r rhestr ddatgelu safonol mewn hawliadau yn y gweithle, sy'n rhan o'r Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Anaf Personol
- Rhaglen Ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn benodol, y gwasanaethau diwygiedig ar-lein sy'n cael eu llywodraethu gan Gyfarwyddyd Ymarfer 51R (Hawliadau am Arian Sifil Ar-lein) a Chyfarwyddyd Ymarfer 51ZB (Cynllun Peilot Hawliadau am Iawndal)
- Cyfryngu integredig ar gyfer achosion hawliadau bychain yn y llys sirol
- Cysylltu â'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein
- Adolygu Cynllun Peilot Cyfarwyddiadau Ymarfer, fel: y cynllun peilot Penderfyniadau ar Hawliadau Bach ar Bapur (Cyfarwyddyd Ymarfer 51ZC)

  a'r Cynllun Peilot E-weithio (Cyfarwyddyd Ymarfer 51O)
- Gwasanaeth ac E-lofnod
- Symleiddio Cynigion yr Is-bwyllgor gyda'r bwriad o leihau hyd cyffredinol y

  Rheolau Trefniadaeth Sifil, er mwyn symleiddio'r iaith, gwella eglurder a bod yn niwtral o ran y rhywiau
- Diwygiadau Ymgyfreitha Strategol yn Erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd

## Manylion cyswllt

Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau am waith y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil at:

Carl Poole
Secretary to the Civil Procedure Rule Committee
Ministry of Justice
5th Floor
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

DX 152380 WESTMINSTER 8

E-bost CPRC@justice.gov.uk

# Atodiad

Atodiad i Adroddiad Blynyddol 2023-24 y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

## Rhôl i nodi 25 mlynedd gyda chofnod o Gadeiryddion, Dirprwyon ac Ysgrifenyddiaethau'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

**Cadeirydd: Meistr y Rholiau a Phennaeth Cyfiawnder Sifil**

Yr Arglwydd Woolf – 1996 i 2000 – Cadeirydd cyntaf

Yr Arglwydd Phillips o Worth Maltravers – 2000 i 2005

Yr Arglwydd Clarke o Stone-cum-Ebony – 2005 i 2009

Yr Arglwydd Neuberger o Abbotsbury – 2009 i 2012

Yr Arglwydd Dyson – 2012 i 2016

Yr Arglwydd Etherton – 2016 i 2021

Syr Geoffrey Vos – 2021 – presennol

**Dirprwy: Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil Cymru a Lloegr**

Yr Arglwydd Dyson – 2003 i 2007

Yr Arglwydd Neuberger – 2007

Syr Martin Moore-Bick – 2007 i 2013

Syr Stephen Richards – 2013 i 2016

Yr Arglwydd Briggs – 2016 i 2017

Yr Arglwydd Ustus Coulson – 2017 i 2021

Yr Arglwydd Ustus Birss – 2021 – presennol

**Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheolau**

Jane Hall – 1997 i 2006

Richard Walley – 2006 i 2007

Stephanie Sandison – 2007 i 2008

Jane Wright MBE – 2008 i 2018

Carl Poole – 2018 – presennol

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/civil-procedure-rules-committee.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at yr Ysgrifenyddiaeth at CPRC@justice.gov.uk